Ysgol Gyfun Gymunedol

# Penweddig

## Pecyn gwybodaeth

# Uwch Dechnegydd Gwyddoniaeth

**(37 awr yr wythnos, adeg y tymor yn unig, parhaol)**

**Cyflog Graddfa 6**

**(£25,584 - £26,835) pro-rata)**

Dyddiad cau:  19 Mehefin 2025

Cymreictod

Parch

Ymdrech

## UWCH DECHNEGYDD GWYDDONIAETH

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am fynegi diddordeb yn yr hysbyseb am y swydd hon ym Mhenweddig.

Mae Penweddig yn ysgol lwyddiannus, sydd â hanes o welliant a datblygiad. Mae nifer sylweddol o'n disgyblion yn sicrhau canlyniadau TGAU a Safon Uwch sydd yn uwch nag ysgolion cyffelyb. Mae ymddygiad ein disgyblion yn dda iawn, ac mae ganddynt ymagwedd bositif ac ysgogol at ddysgu. Cyniga'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol a hynny mewn amgylchedd Gymraeg a Chymreig. Mae Penweddig yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol. Cydnabuwyd hyn yn ystod Arolwg Estyn llwyddiannus diweddar yr ysgol yn Hydref 2024:

*"Mae gofalu am les disgyblion yn cael lle blaenllaw yn Ysgol Gyfun Penweddig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos parch at ei gilydd ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gaffaeliad i'r ysgol, gan fodelu ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol iawn i ddisgyblion iau. Mae trefniadau cadarn i fonitro a hybu presenoldeb disgyblion wedi arwain at welliannau sylweddol." (Estyn Hydref 2024)*

Lleolir yr ysgol yng nghanol tref brifysgol fywiog Aberystwyth. Ymfalchïwn yng nghyfleusterau ac adnoddau o'r radd flaenaf sydd gennym ym Mhenweddig. Am flas o'r ysgol ewch i ymweld â gwefan yr ysgol neu wylio ein fideo hyrwyddo.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â ni naill ai drwy ffonio'r ysgol (01970 639499), neu drwy e-bost at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk .

Hyderaf bydd y pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi syniad da i chi o gyd-destun y swydd.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 19 Mehefin 2025.**

**Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos ganlynol, sef yr wythnos yn cychwyn 23 Mehefin 2025.**

Yn gywir

*Clive Williams*

Pennaeth

# DISGRIFIAD SWYDD

## UWCH DECHNEGYDD GWYDDONIAETH

**37 awr yr wythnos ○ Adeg y tymor yn unig ○ Parhaol**

**CEFNDIR**

Mae'r ysgol yn chwilio am berson brwdfrydig ac egnïol i ymgymryd â'r swydd uchod yn yr Adran Wyddoniaeth. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus bod yn gyfrifol am baratoi gwaith ymarferol yr adran ynghyd â gwaith gweinyddol yr adran. Dysgir Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Felly mae'r gallu i gyfathrebu drwy'r Gymraeg yn hanfodol.

**DISGRIFIAD SWYDD**

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gynorthwyo gyda'r dyletswyddau canlynol o fewn yr adran:

Dan gyfarwyddyd uwch-aelodau staff: Darparu cymorth arbenigol mewn maes cwricwla/adnoddau penodol, gan gynnwys paratoi a chynnal adnoddau a chymorth ar gyfer staff a disgyblion.

**Cymorth i Ddisgyblion**

- Defnyddio sgiliau/hyfforddiant/profiad arbenigol i gynorthwyo disgyblion

**Cymorth i'r Athro/Athrawes**

- Creu a chynnal amgylchedd gwaith pwrpasol, trefnus a chynhyrchiol
- Cynllunio, paratoi a defnyddio cyfarpar/adnoddau/deunyddiau arbenigol yn gywir ac ar yr adeg iawn
- Cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau gwersi/gwaith, gweinyddu gwaith cwrs, taflenni gwaith ayyb.
- Cyfrannu tuag at y gwaith o gynllunio, datblygu a threfnu systemau/gweithdrefnau/polisïau
- Bod yn gyfrifol am gadw cofnodion, gwybodaeth a data, a chynhyrchu dadansoddiadau ac adroddiadau fel bo angen
- Rhoi rhaglenni gwaith/gwersi ymarferol penodol ar waith gyda disgyblion dan arweiniad yr athro/athrawes
- Hyrwyddo a sicrhau iechyd a diogelwch ac ymddygiad da'r disgyblion bob amser
- Gweinyddu a chofnodi canlyniadau profion a goruchwylio arholiadau/profion

**Cymorth gyda'r Cwricwlwm**

- Monitro, rheoli ac archebu stoc o fewn cyllideb gytûn, catalogio adnoddau ac ymgymryd ag archwiliadau fel bo angen
- Cynnal a chadw cyfarpar arbenigol, gwirio ei ansawdd/ddiogelwch, gwneud unrhyw waith trwsio/addasu sydd o fewn eich gallu a threfnu i rywun arall wneud unrhyw waith trwsio/addasu arall
- Defnyddio a chynorthwyo i ddefnyddio cyfarpar/adnoddau arbenigol mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- Darparu cyngor ac arweiniad arbenigol fel bo angen
- Dealltwriaeth o reoliadau CLEAPSS a COSHH a'i ddefnydd wrth drefnu arbrofion
- Ymgyfarwyddo gydag anghenion Cwricwlwm i Gymru a meysydd llafur TGAU a Lefel A

**Cymorth i'r Ysgol**

- Bod yn ymwybodol o, a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag amddiffyn plant, iechyd a diogelwch a chyfrinachedd, gan hysbysu person priodol ynghylch unrhyw bryderon
- Bod yn ymwybodol o, a chefnogi gwahaniaeth a sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad cyfartal i gyfleoedd dysgu a datblygu
- Cyfrannu tuag at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol
- Sefydlu perthynas adeiladol a chyfathrebu gyda staff yr ysgol
- Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill a datblygiad rheoli perfformiad fel bo angen.
- Adnabod eich cryfderau a'ch meysydd arbenigol a defnyddio'r rhain i gynghori a chynorthwyo eraill
- Cynorthwyo i oruchwylio, hyfforddi a datblygu staff
- Gweithredu cynlluniau goruchwylio plant y tu allan i amser gwersi e.e. clybiau/gweithgareddau allgyrsiol

## MANYLEB PERSON

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMWYSTERAU | • NVQ 3 neu gymhwyster neu brofiad cyfwerth yn y ddisgyblaeth berthnasol<br>• Hyfforddiant penodol yn y maes arbenigol | • Hyfforddiant Cymorth Cyntaf<br>• Hyfforddiant CLEAPSS a COSHH |
| PROFIAD | • Profiad yn y maes penodol o fewn amgylchedd dysgu | |
| SGILIAU A RHINWEDDAU PERSONOL | • Y gallu i gyfathrebu drwy'r Gymraeg<br>• Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion<br>• Sgiliau TGCh da<br>• Sgiliau rhyngbersonol da<br>• Sgiliau rhifedd a llythrennedd da<br>• Y gallu i gadw cyfrinachedd<br>• Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu ac ymdrechu i chwilio am gyfleoedd dysgu<br>• Gweithio'n adeiladol a hyblyg yn rhan o dîm, deall cyfrifoldebau a swyddogaethau'r ystafell ddosbarth a'ch safle bersonol o fewn y swyddogaethau hynny | • Y gallu a'r parodrwydd i hybu proffil yr Ysgol o fewn y gymuned leol a chenedlaethol |
| ERAILL | • Gwiriad DBS manwl | |

**DIOGELU: DATGANIAD CYNGOR SIR CEREDIGION**
Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Rydym ni a'n sefydliadau addysgiadol yn cydnabod bod plant a phobl ifanc a'r hawl i gael eu hamddiffyn a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn a byddwn yn gofyn am Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sef y CRB gynt.

## GWNEUD CAIS AM Y SWYDD

Mae modd gwneud cais am y swydd hon drwy gwblhau'r ffurflen gais electroneg oddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion [Addysg | Ceredigion County Council Careers]

## CYFWELD

Dyddiad cau: **19 Mehefin 2025**

Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos ganlynol, sef **yr wythnos yn cychwyn 23 Mehefin 2025**

## CEREDIGION AC ABERYSTWYTH

### CEREDIGION



Sir arfordirol yng ngorllewin Cymru yw Ceredigion, sydd â phoblogaeth o tua 71,500 (2021). Mae iddi dirwedd odidog sy'n ymestyn o Fynyddoedd y Cambrian i'r arfordir ysblennydd ym Mae Ceredigion. Mae ei threfi sirol a'i phentrefi cefn gwlad yn frith o ddiwylliant a hanes.

Mae economi'r sir yn bennaf ddibynnol ar amaethyddiaeth, twristiaeth a bwyd, ond ceir hefyd sectorau arwyddocaol eraill megis addysg uwch, gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu.

### ABERYSTWYTH



Aberystwyth yw tref fwyaf Ceredigion. Tref hanesyddol ydyw, a ddaeth yn gyrchfan glan-môr yn oes Fictoria. Mae'n gartref i Brifysgol (un o golegau sylfaenol Prifysgol Cymru), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r dref wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru a'r iaith Gymraeg. Yma yn Aberystwyth, dros 80 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru, ac yma hefyd yn 1963 cynhaliwyd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – protest Pont Trefechan.



Mae nifer o leoliadau i fwynhau perfformiadau theatr, ffilm, cerddoriaeth a chelfyddyd weledol, yn ogystal â chwaraeon. Mae amrywiaeth o siopau annibynnol a llefydd bwyta. Mae marchnad ffermwyr Aberystwyth wedi ei chydnabod fel un o'r goreuon ym Mhrydain.

Yn lleol ceir nifer o lwybrau beicio a chanolfannau gweithgareddau awyr agored, fel Nant yr Arian.

Gyda phoblogaeth o tua 12,250, mae Aberystwyth yn le braf i fyw, astudio, gweithio ac i fagu teulu.